**RHYBUDD o Benderfyniadau cyfarfod hybrid y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ddydd Mercher, 4 Hydref 2023.**

***[Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig a bydd cofnodion llawn o'r cyfarfod gerbron y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w cymeradwyo.***

***Mae'r dogfennau ar gyfer y cyfarfod uchod ar wefan y Cyngor ynghyd â gweddarllediad o'r gweithgareddau].***

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | Cynghorydd Ken Taylor (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Glyn Haynes (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Geraint Bebb, Jeff M Evans, Neville Evans, T Ll Hughes MBE, John Ifan Jones, Dafydd Roberts, Robin Williams a Liz Wood |
| **Ymddiheuriadau:** | Cynghorwyr Jackie Lewis a Alwen Watkin |
| **Hefyd yn bresennol:** | Aelodau Lleol: Cynghorwyr Non Dafydd (cais 7.2); Paul Ellis (cais 7.2); Douglas Fowlie (cais 12.6); Margaret M Roberts (cais 7.2); Ieuan Williams (12.2)<br><br>Cynghorydd Derek Owen |

1.00 o'r gloch yp - 3.50 o'r gloch yp

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **2 DATGANIAD O DDIDDORDEB** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Bu i'r Cynghorydd Liz Wood ddatgan diddordeb personol yng nghais 12.2 – Maes Carafanau Rynys, Penrhoslligwy, Dulas. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 COFNODION** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd 6 Medi 2023 fel cofnod cywir. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 YMWELIAD SAFLEOEDD** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cadarnhawyd bod cofnodion yr Ymweliad Safle a gynhaliwyd 20 Medi, 2023 yn gofnod cywir. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 SIARAD CYHOEDDUS** |
| PENDERFYNIAD | Roedd siaradwyr cyhoeddus ar gyfer ceisiadau 7.1, 7.2, 12.1, 12.2. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 CEISIADAU FYDD YN CAEL EU GOHIRIO** |
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd dim yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 CEISIADAU'N CODI** |
| PENDERFYNIAD | **7.1 FPL/2023/155 – Cais llawn ar gyfer newid defnydd adeilad allanol i uned gwyliau ynghyd a gwaith cysylltiedig yn Llwyn Onn, Llanfairpwll**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog yn amodol ar yr amodau yn yr adroddiad ysgrifenedig.**<br><br>**7.2 FPL/2022/186 – Cais llawn ar gyfer newid defnydd tir amaethyddol i faes carafán teithiol, newid defnydd yr adeilad allanol presennol i ddefnydd ategol i'r maes carafán ynghyd a gosod system trin carthffosiaeth yn Esgobaeth Bran, Llanbedrgoch**<br><br>**PENDERFYNWYD gwrthod y cais yn erbyn argymhelliad y Swyddog oherwydd credwyd nad oedd y rhwydwaith priffyrdd i'r safle yn dderbyniol.**<br><br>*(Yn unol â gofynion y Cyfansoddiad, bydd y cais yn cael ei ohirio tan y cyfarfod nesaf er mwyn rhoi cyfle i'r Swyddogion ymateb i'r rhesymau a roddwyd dros wrth y cais).* |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 CEISIADAU ECONOMAIDD** |
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd dim yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 CEISIADAU AM DY FFORDDIADWY** |

| | |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd dim yn ystod y cyfarfod hwn o’r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A’R PWNC | **10 CEISIADAU'N GWYRO** |
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd dim yn ystod y cyfarfod hwn o’r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A’R PWNC | **11 CYNIGION DATBLYGU A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR NEU SWYDDOGION** |
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd dim yn ystod y cyfarfod hwn o’r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A’R PWNC | **12 GWEDDILL Y CEISIADAU** |
| PENDERFYNIAD | **12.1 FPL/2023/141 – Cais llawn ar gyfer newid defnydd Eglwys i fod yn un eiddo preswyl (Defnydd Dosbarth C3) ac un eiddo llety gwyliau tymor byr (Defnydd Dosbarth C6) ynghyd â chodi adeilad sied/garej, creu mynedfa newydd i gerbydau, adeiladu balconi newydd, gwaith tirlunio meddal a chaled, addasiadau i’r adeilad ynghyd a gwaith cysylltiedig Eglwys Bresbyteraidd Saesneg, Ffordd Telford, Porthaethwy**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo’r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog yn amodol ar yr amodau yn yr adroddiad ysgrifenedig.**<br><br>**12.2 FPL/2022/250 – Cais llawn ar gyfer ail-osod 144 o garafanau gwyliau statig, ynghyd a gwelliannau amgylcheddol ym Mharc Carafanau Rynys, Penrhoslligwy, Dulas**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo’r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog yn amodol ar yr amodau yn yr adroddiad ysgrifenedig.**<br><br>**12.3 FPL/2023/159 – Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu'r ganolfan hamdden bresennol, sy'n cynnwys ystafell ddigwyddiadau, campfa, caffi, man chwarae meddal, derbynfa, llyfrgell, swyddfa a storfeydd yng Nghanolfan Hamdden Biwmares, Biwmares.** |

| | |
|---|---|
| | **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog yn amodol ar yr amodau yn yr adroddiad ysgrifenedig.**<br><br>**12.4 FPL/2023/178 – Cais llawn ar gyfer gosod 10 colofn golau 9m o uchder yn Ysgol Uwchradd Bodedern, Bodedern**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog yn amodol ar yr amodau yn yr adroddiad ysgrifenedig.**<br><br>**12.5 FPL/2023/204 – Cais llawn ar gyfer lleoli adeilad ystafell ddosbarth dwbl modiwlaidd ar faes chwarae'r ysgol yn Ysgol Gynradd Bodffordd, Minffordd, Bodffordd**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog yn amodol ar yr amodau yn yr adroddiad ysgrifenedig.**<br><br>**12.6 FPL/2023/154 – Cais llawn ar gyfer dymchwel estyniad cefn presennol, ynghyd a addasu ac ehangu yn Glan Traeth, Rhosneigr.**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog yn amodol ar yr amodau yn yr adroddiad ysgrifenedig.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **13 MATERION ERAILL** |
| PENDERFYNIAD | **13.1Newid yr amser a ganiateir i Siaradwyr Cyhoeddus yn y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion**<br><br>**PENDERFYNWYD argymell i'r Pwyllgor Gwaith y dylid newid yr amser a ganiateir i siaradwyr cyhoeddus yn y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion o 3 munud i 5 munud.** |